# Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Cofnodion Cyfarfod Misol y Cyngor a gynhaliwyd ar yr **2il o Hydref** yng Nghanolfan Gymdeithasol Golan.

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Presennol: | Richard Williams (Cadeirydd), Clifford Williams, John Jones (Garndolbenmaen), Raymond Jones (Pentrefelin), Richard Parry, Edward Evans (Bryncir), John Till, Megan Lloyd Williams (Golan), Iddon Edwards (Penmorfa) |
| 2. | Ymddiheuriadau: | Cynghorydd June Jones, Stephen Churchman (Cyngor Gwynedd), Gwenno Emlyn Huws (Penmorfa), Enid Egginton (Garndolbenmaen), Huw Pritchard (Pentrefelin), Gwilym Evans (Prenteg) |
| 3. | Ddim yn bresennol: | Neb |
| 4. | Siaradwyr Gwadd: | Croesawyd Bethan Williams a Sian Griffiths o Gyngor Gwynedd, sy'n cynrychioli Gwasanaeth Gwynedd Oed Gyfeillgar. Mae Cyngor Gwynedd wedi ymrwymo i ddod yn awdurdod lleol oed-gyfeillgar erbyn 2025. Mae'r ymrwymiad hwn yn rhan o waith cenedlaethol ehangach a arweinir gan Lywodraeth Cymru a Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru, ac mae'n cyd-fynd â blaenoriaethau Sefydliad Iechyd y Byd.<br><br>Datblygwyd cynllun gweithredu ar gyfer Gwynedd drwy gyfres o sgyrsiau manwl gyda phobl hŷn a phartneriaid ar draws y sir. Yn ogystal, defnyddiwyd gwybodaeth a gasglwyd drwy fforymau, cynadleddau, gweithdai a digwyddiadau amrywiol a gynhaliwyd dros y blynyddoedd diwethaf, gyda'r nod o drafod a datblygu mentrau oed-gyfeillgar yn lleol.<br><br>Mae'r cynllun gweithredu wedi'i threfnu o amgylch wyth parth allweddol sy'n diffinio awdurdod lleol oed-gyfeillgar:<br>• Tai<br>• Trafnidiaeth<br>• Cyfranogiad cymdeithasol<br>• Mannau ac adeiladau awyr agored<br>• Parch a chynhwysiant cymdeithasol<br>• Cyfranogiad dinesig a chyflogaeth<br>• Cymorth cymunedol a gwasanaethau iechyd<br>• Cyfathrebu a gwybodaeth<br><br>O fewn pob un o'r parthau hyn, canolbwyntir ar yr hyn sydd eisoes yn hysbys, enghreifftiau o arferion da, yr hyn sydd wedi'i glywed gan y gymuned, a'r camau y mae partneriaid Gwynedd yn bwriadu eu cymryd yn y dyfodol.<br><br>Gellir cael mwy o wybodaeth yma: Gwynedd Oed Gyfeillgar: Cynllun Gweithredu |
| 5. | Datgan Buddiant: | Neb |

| | | |
|---|---|---|
| 6. | Cywirdeb y cyn-gofnodion : | JT yn cynnig a EE yn eilio. |
| 7. | Materion yn codi o'r cyn-gofnodion: | **Lôn gul Garndolbenmaen (Garreg Gron i Glan Gors) –** Cafodd JJ gyfarfod safle ar y 23ain o Fedi am 10yb gydag Iwan ap Trefor, Rheolwr Traffig a Phrosiectau o Gyngor Gwynedd. Penderfynwyd rhoi arwydd cliriach ar geg y ffordd a chynnig ffordd amgen.<br><br>**Wal Mynwent Llanfihangel y Pennant –** Wayne Mitchelmore yn falch o dderbyn y gwaith ac yn gobeithio cychwyn ar y gwaith penwythnos y 17eg o Hydref.<br><br>**Torri'r Goeden ym Mynwent Llanfihangel y Pennant –** y gwaith yma wedi'i gwblhau gan Gwasanaethau Coed GBA. Clerc i ofyn i berchnogion Tyn Llan os allent symud y coed o'r fynwent.<br><br>**Polisi Cwynion Di-enw –** Mae copïau o bolisïau Cyngor Tref Caernarfon wedi'u derbyn, gan gynnwys gweithdrefn gwyno sy'n nodi na fydd cwynion dienw yn cael eu hystyried, a pholisi ar weithredoedd annerbyniol. Cynigiwyd i'r clerc addasu'r polisïau hyn ar gyfer Cyngor Cymuned Dolbenmaen, gyda IE yn cynnig ac MLW yn eilio.<br><br>**Grant Gwynedd Ni -** Adroddwyd bod y neuaddau i gyd bellach wedi dweud eu bod yn hapus i dderbyn yr offer. Clerc i fynd ati i archebu'r offer.<br><br>**Llog y cyfrif cadw –** Adroddwyd mai llog presennol y cyfrif cadw gyda HSBC yw 1.52%. Clerc i ymchwilio i weld pa opsiynau buddsoddi eraill sydd ar gael ac i wneud ymholiadau gydag Unllais Cymru. |
| 8. | Mynwentydd: | **Cytundeb Gwastraff Mynwent Bethel –** Daw'r cytundeb gyda Veolia i ben ar 17 Hydref. Cafwyd prisiau gan dri chwmni; dewiswyd pris Cyngor Gwynedd. Pawb yn gytûn.<br><br>Dim angen adolygu neu ddiweddaru rheolau claddu. Bydd y Clerc yn trefnu i Is-bwyllgor Mynwentydd adolygu'r ffioedd, sydd heb newid ers 2017. |
| 9. | Llwybrau Cyhoeddus: | **Llwybr 5 –** Mae Dewi, y Swyddog Llwybrau wedi archwilio'r llwybr ac yn bwriadu dychwelyd gyda chontractwr cyn bo hir i asesu beth sydd angen i godi ochrau'r llwybr.<br><br>**Llwybr Golan –** Dim diweddariad. Clerc i fynd ar ôl y mater yma eto. |
| 10. | Adroddiad Pentrefi: | **Golan –** Gofynnwyd os oedd diweddariad parthed coed sydd wedi gor-dyfu ar all Cefn Coch. Clerc i adrodd am hyn eto.<br><br>**Garndolbenmaen –** Dŵr yn gollwng ger yr ysgol eto; mae Dŵr Cymru wedi ymweld. Gofynnwyd i'r clerc gysylltu â Dŵr Cymru am ddiweddariad. |

| | | |
|---|---|---|
| | | **Bryncir –** Adroddodd RP bryderon a godwyd gan aelodau'r gymuned ynghylch gweithrediad y gwasanaeth bysus lleol. Nodwyd bod adroddiadau wedi dod i law sy'n awgrymu nad yw'r bysus yn stopio yn y llefydd cywir, gan achosi anhwylustod i deithwyr sydd angen defnyddio'r gwasanaeth mewn mannau penodol. Yn ogystal, mynegwyd pryder penodol ynghylch ymddygiad rhai o yrwyr y bysus. Soniwyd bod rhai gyrwyr gyda chlustffonau tra'n gyrru. O ganlyniad, nid ydynt yn clywed pan fydd teithwyr yn canu'r gloch, sydd yn gallu arwain at broblemau diogelwch ac effeithlonrwydd y gwasanaeth. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â Chyngor Gwynedd i roi gwybod am y problemau.<br><br>Adroddodd y clerc nad yw YGC wedi cael ymateb gan y Mart yn Bryncir ers cysylltu ym mis Gorffennaf. Mae'r clerc i gysylltu eto i ofyn am ymateb.<br><br>**Penmorfa** – Derbyniwyd cynnig Japanese Knotweed Removal Wales i drin Llysiau'r Dial am 5 mlynedd am £100 y flwyddyn. Cynigiwyd gan MLW ac eiliwyd gan JJ.<br><br>Codwyd y mater o gyflymder traffig ym Mhenmorfa eto. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â'r Adran Gefnffyrdd ynghylch gosod mesurau gostwng cyflymder fel arwyddion goleuo yn y pentref.<br><br>**Pentrefelin** – Dim i'w adrodd<br><br>**Prenteg -** Derbyniwyd cwyn am gyflwr ffordd y fynwent, gan nodi gwaith adeiladu cyfagos dros yr haf. Penderfynwyd monitro'r sefyllfa. |
| 11. | Ymddiswyddiad Cynghorydd | Adroddodd y Clerc fod Jess Williams wedi ymddiswyddo fel cynghorydd Penmorfa. Diolchwyd iddi am ei gwaith. Bydd y Clerc yn cysylltu â Chyngor Gwynedd i hysbysebu'r sedd wag. |
| 12. | Gohebiaeth | a. John Hywyn Williams - Partneriaeth Natur Gwynedd |
| 13. | Gohebiaeth Ychwanegol | a. Unllais Cymru – Cylchlythyr 1<br>b. Unllais Cymru – Hyfforddiant Medi hyd Rhagfyr<br>c. Adroddiad Drafft ar Gydnabyddiaeth Ariannol 26/27<br>ch. Y Grid Cenedlaethol – Cyhoeddusrwydd ac ymgynghori cyn gwneud cais am ganiatâd cynllunio – hysbysiad o dan erthyglau 2C a 2D – Ardal Glaslyn a Bryncir. |
| 14. | Cynllunio | **Rhestrau** 1/9, 8/9, 15/9 a 22/9<br><br>**NP2/16/2G** – Adeiladu garej deulawr ar wahân 3 bae gyda swyddfa ar y llawr cyntaf / Bryn Awelon, Garndolbenmaen, LL51 9UJ. Gwrthod ar sail diffyg gwybodaeth.<br><br>**NP2/16/71B** – Dymchwel garej ategol presennol i'r ffrynt a'r ystafell wydr i'r cefn, codi estyniad ffrynt deulawr, codi ystafell wydr newydd yn y cefn a newidiadau i allan dŷ ar wahân i greu ystafell gawod. Glan Rafon, Garndolbenmaen, LL51 9UX. Dim gwrthwynebiad. |

| | | |
|---|---|---|
| 15. | Materion Ariannol | **Ceisiadau am arian:** Theatr Bara Caws – ffurflen gais wedi'i anfon atynt ac wedi'i dderbyn yn ôl ynghyd â mantolen ariannol. Cais i'w drafod ym mis Chwefror 2026.<br><br>**Monitro'r Gyllideb**: Dim Gorwariant<br><br>**Biliau i'w talu:**<br><br>Cyflog Clerc £342.89<br>Ffôn £ 15.00<br>Cyfrifiadur £ 20.00<br>HMRC £ 85.72<br>Veolia £ 2.60<br>Madog Gardencare £220.00 (Mynwent – Awst)<br>Madog Gardencare £390.00 (Toriadau Medi)<br>Gwasanaethau Coed GBA £360.00<br><br>**** Cymeradwywyd i dalu'r uchod.**<br><br>**Derbyniadau –** Llog £153.92<br><br>**Balansau Cyfrifon:**<br>Cadw – £43,837.04<br>Cyfredol- £2,927.46 |
| 16. | Dewis Gohebiaeth i'r Wasg/Wefan | Gwynedd Oed Gyfeillgar<br>Bysus Bryncir<br>Llwybr 5<br>Ymddiswyddiad Cynghorydd |